

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

### Medi 1af, 2015

**Presennol:** Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Arwel Lloyd Jones, Catrin Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol)

**1470** Wrth groesawu, cyfeiriodd y Cadeirydd at falchder y gymuned yn llwyddiannau pobl ifanc yn eu harholiadau. Llongyfarchodd achlysuron priodasol a phenblwyddi arbennig. Mynegodd cydymdeimlad y Cyngor gyda Caradog Evans, cyn-aelod o'r Cyngor Cymuned a gyda'r Cynghorydd Alan Jones Evans yn eu profedigaeth ddiweddar. Cydnabuwyd cyfraniad nifer fawr o'r ardal at lwyddiant arbennig yr Eisteddfod Genedlaethol Meifod eleni a llongyfarchwyd yn arbennig Osian Williams ar ennill Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchwyd aelod o'r Cyngor Cymuned, sef Beryl Hughes Griffiths, ar ddod i'r brig mewn cystadleuaeth lenyddol.

**1471** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1472** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**1473** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 7fed 2015.

**1474** Materion y Clerc yn codi o'r Cofnodion:

- i. Symudwyd yr elor dros dro i ddiogelwch Capel Aion, diolch i Arwel Lloyd Jones a diolch i swyddogion Aion.
- ii. Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer gosod silffoedd at ddefnydd y Cyngor mewn cwpwrdd yn y Neuadd.
- iii. Ar ôl trafodaeth gyda'r Bostfeistr, cytunwyd i beidio bwrw ymlaen gyda llythyru'r Swyddfa'r Post am doriad yn y gwasanaeth yn ddiweddar. Sylwodd Cynghorwyr mai uniaith Saesneg yw'r arwydd yn ffenest y Neuadd.
- iv. Cafwyd cydnabyddiaeth fod Cyngor Gwynedd ac Adran Edwina Hart yn ystyried y cais am 20mya yn y Llan fel dilyniant i'r cyfyngiad cyflymder ar y ffordd fawr.
- v. Gosodwyd pyst er diogelwch wth cwlfer Tŷ Mawr / Tyddyn Ronnen.

**1475** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir. Soniodd Alan Jones Evans am ei bryderon parthed gosod fflatau ym Maes y Pandy i denantiaid sydd yn anaddas i'r gymdogaeth leol. Ei ddymuniad yw dynodi un bloc o fflatau ar gyfer pobl hŷn yn unig, ac mae wedi bod yn gohebu am hyn gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd gan roi rhybudd clir iddynt o'r risgiau tebygol o denantiaid yn achoi pryder i'r henoed. Mae wedi llwyddo i drefnu cyfarfod gyda'r Swyddog Gosod. Cytunwyd i Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Y Cadeirydd a'r Clerc hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn ar 28/9/15 am 5.30pm.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

**1476** Trefniadau'r Noson Goffi - cytunwyd i ohebu gyda Merched Y Wawr a Sefydliad y Merched parthed yr adeg orau i gynnal y Noson Goffi.

**1477 Materion Eiddo'r Cyngor** – cytunodd Karl Jones i wneud arolwg o eiddo'r Cyngor. Cytunwyd i wneud arolwg o'r Fynwent ar 7/9/15.

**1478 Materion ariannol** – derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol.

**1479 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:**

- i. Cytunodd Alan Jones Evans i geisio sicrhau clirio'r tyfiant o gwmpas y gratin wrth Maes y Bryn. Sylwyd hefyd fod angen glanhau'r ffos yn yr ardal hon.
- ii. Mae angen clirio'r cerrig yn Stryd Dŵr ar waelod ffordd Pysau. Gweithredu: Cler
- iii. Deallwyd bod Gwynfryn Williams wedi ail-baentio'r englyn ar y maen wrth Cwm Tylo, a diolchir iddo am ei gymwynasgarwch.

**1480 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gyfeiriodd at apwyntio Alyson Evans yn gydlynnydd dros gyfnod mamolaeth, ac at arwyddo prydles yr Henblas.

Erbyn hyn mae swyddfa ar gael at ddefnydd gweithwyr Cyngor Gwynedd yng Nghanolfan Henblas.

Gyda balchder clywyd fod CAB (Cyngor ar Bopeth / Citizens Advice Bureau) ar gael bob yn ail ddydd Mawrth yng Nghanolfan Henblas (24 Stryd fawr, Y Bala). Gwelir yr union amser a dyddiadau wrth ddrws ffrynt yr Henblas. Dyma wasanaeth sy'n rhoi cyngor heb unrhyw gost ar bob math o faterion. Cytunodd Cyngor Llanuwchllyn i dalu i hysbysu'r gwasanaeth yn "Y Cyfnod" gan roi amlinelliad o'u gwaith.

**1481 Gohebiaeth:**

**Parc Cenedlaethol Eryri:**

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i geisiadau cynllunio:

- i. Estyniad i garej Rhosyfedwen
- ii. Diddymu amodau cyfyngu Adeiladau fferm Glan Llyn yn fflatiau gwyliau
- iii. Gosod polyn trydan ar dir oddi ar Stryd yr Eglwys
- iv. Gosod ffenest yn edrychiad ochr y garej Tan y ffordd
- v. Codi adeilad amaethyddol ym Mryn Caled
- vi. Dymchwel estyniad a chodi un yn ei lle yn y Neuadd wen

Cofnodwyd cymeradwyo mewn ymgynghoriad ffôn cais NP5/71/LB352D sef ychwanegu ffenestri to a gwaith trwsio allanol yn y Neuadd Wen

Ystyriwyd ceisiadau:

- i. NP5/71/453 Trosi adeilad amaethyddol yn dŷ a gosod uned trin carthion yng Nghoed

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

Ladyr, Cynllwyd Uchaf – cymeradwywyd. Nodwyd o ran diddordeb mai Plas yn Drws oedd enw hen fagwyr ar y tir.

NP5/71/2E Adeiladu estyniad cefn a gosod ffenest dormer a ffenestri to ym Mhenrhiw Dwrch, Cynllwyd Isaf: Roedd y Cynghorwyr o'r farn fod gor-ddatblygu wedi bod eisoes ar y lleoliad hwn sydd wedi peri i'r adeilad gwreiddiol gael ei drawsnewid yn llwyr. Roedd y Cynghorwyr hefyd yn tynnu sylw fod y parcio wrth y tŷ hwn eisoes mor gyfyng fel bod y perchennog presennol yn gwneud defnydd o gulfan ar ffordd gyhoeddus er mwyn parcio ei gerbyd ei hun. Mae hyn yn creu rhwystr i ddefnyddwyr eraill y ffordd hon, gan fod y ffordd yn gul iawn a phrin yw'r cyfleoedd i gerbydau pasio ei gilydd.

Gohebiaeth arall:

- i. Derbyniwyd rhestr dyddiadau cyfarfodydd Parc Cenedlaethol Eryri.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrch Gweld Sêr.
- iii. (Llywodraeth Cymru) Nodwyd y gwahoddiad i fynychu hyfforddiant ar gynllunio ym Mhlas Tanybwllch.

**Gwynedd:**

- i. Derbyniwyd eglurhad am ail strwythuro'r gwasanaeth Cofrestru a diddymu'r ddarpariaeth yn Y Bala oherwydd diffyg cyllid.
- ii. Derbyniwyd newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn).
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad i Aelodau 14/10/15 – a chytunodd Alwyn Roberts, Huw Antur, Karl Jones, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Dewi Jones i fynychu'r hyfforddiant.

**Un Llais Cymru:** Nid oedd yn gyfleus i neb o aelodau'r Cyngor fynychu Cynhadledd Un Llais Cymru.

**Erail:**

- i. Ystyriwyd ymateb i ymgynghoriad pellach ar gynigion i'r Comisiwn Ffiniau etholiadol a chytunodd yr aelodau i ymateb fel unigolion.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y cyfle i unigolion leisio barn ar yr uned famolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 6/10/15 yn y Neuadd Bentref.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn  
Cadeirydd: Alwyn Roberts

---